# Crynodeb gweithredol

1. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno'r Bil Mudo Anghyfreithlon (IMB) i wneud newidiadau i'w pholisi mewnfudo. Mae'r IMB yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Cartref i drefnu bod unigolion sy'n dod i mewn i'r DU neu sy'n cyrraedd y DU yn anghyfreithlon yn cael eu symud oddi yma yn brydlon.

2. I sicrhau bod gan unigolion sydd wedi cael rhybudd symud o dan yr IMB fynediad at gymorth cyfreithiol ar gyfer y rhybudd symud, mae'r IMB hefyd yn addasu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO). Bydd cyngor a chymorth cyfreithiol ar gyfer symudiadau IMB yn cael ei gynnwys yng nghwmpas cymorth cyfreithiol. Bydd yr IMB hefyd yn symleiddio'r broses ar gyfer gwneud cais am gymorth cyfreithiol drwy addasu'r is-ddeddfwriaeth i ddileu'r meini prawf cymhwysedd teilyngdod ar gyfer unigolion sydd wedi cael rhybudd symud o dan yr IMB, ac fe gyflwynir offeryn statudol i wneud cymorth cyfreithiol yn unol ag IMB yn rhydd o feini prawf. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gymorth cyfreithiol.

3. Cyrhaeddodd 45,755 o bobl y DU mewn cychod bach yn 2022. Oherwydd amserlenni tynn yr IMB a'r disgwyl am niferoedd mawr o achosion, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn cymryd camau i gynyddu capasiti i'n galluogi i ymdopi â'r cynnydd yn y galw am gymorth cyfreithiol. Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig ffioedd uwch ar gyfer gwaith mewnfudo sy'n ymwneud â'r IMB i helpu i sicrhau y gall y sector ymdopi â'r galw am gymorth cyfreithiol a darparu mynediad at gyfiawnder i unigolion sy'n wynebu cael eu symud o'r DU.

4. Ffocws yr ymgynghoriad hwn yw sut y bydd gwasanaethau cymorth cyfreithiol i unigolion sydd wedi cael rhybudd symud yn cael eu talu. Yn gyntaf mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu ein cynnig y bydd y cyfraddau fesul awr ar gyfer gwaith a wneir yn unol â Chymal 55 yr IMB 15% yn uwch na chyfraddau fesul awr gwaith mewnfudo cyfredol. Yn ail, cynigir ein bod yn cynnal adolygiad o'r cyfraddau newydd hynny ar ffurf ymgynghoriad caeedig gyda rhanddeiliaid allweddol o fewn dwy flynedd i'r ffioedd gael eu cyflwyno. Mae cynigion yr ymgynghoriad wedi'u datblygu yn dilyn mewnbwn cychwynnol gan randdeiliaid o'r sector cymorth cyfreithiol mewnfudo, ac fe gynhelir rhagor o ymgysylltiadau yn ystod y broses ymgynghori i sicrhau bod pob persbectif yn cael ei ystyried. Creda'r Llywodraeth bod y newidiadau arfaethedig hyn yn angenrheidiol i helpu i ddiwallu'r galw am gymorth cyfreithiol yn y sefyllfa hon. Maent yn cynnig ac yn sicrhau iawndal teg a phriodol i ddarparwyr cymorth cyfreithiol mewnfudo a lloches ar gyfer y gwaith newydd a gyflwynir yn sgil yr IMB.

5. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013 yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r penderfyniadau terfynol a wnaed ar y newidiadau perthnasol. Bydd diwygiadau canlyniadol hefyd yn cael eu gwneud i Gategori Mewnfudo a Lloches y Gyfraith yng Nghontract Sifil Safonol 2018.

6. Gwahoddir mewnbwn pob rhanddeiliad a phartner sydd â diddordeb yn y pwnc hwn, a chroesawn eu barn ar y materion hyn.